**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Abedaron gynhaliwyd nos Fercher, Medi 21ain yn Nghanolfan Deunant am 7.30yh**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Dewi Evans, Mari Evans, Wil Evans, Gwenllian Hughes Jones, Jaci Jones, Tim Rosa, Dafydd Williams ac RJ Williams.
**Yn y gadair:** Cyng Wenda Williams
**1)<u>Ymddiheuriadau a datgan diddordeb</u> :** Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyng Emlyn Jones. Datganodd y Cyng Mari Evans ddiddordeb yng nghais cynllunio C22/0687/30/CA. Datganodd y Cyng Wenda Williams ddiddordeb yn eitemau 4vi) a 5iii). Datganodd y Cyng Gwenllian Hughes Jones a Dafydd Williams ddiddordeb yn eitem 7 (taliadau)
**<u>2)Cyhoeddiadau y cadeirydd</u>:** Cydymdeimlwyd gyda'r clerc yn dilyn marwolaeth ei ewythr.
**3)<u>Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 11eg o Orffennaf 2022:</u>**
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.
**<u>4</u>) <u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**
**i)Derbyniwyd ymatebion fel a  Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**
**i)Llinellau Gwyn:** Mae'r Cyngor wedi tynnu sylw'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol at gyflwr y llinellau sydd yn fynedfa breifat maes parcio'r Ymddiriedolaeth ym mhentref Aberdaron.  Ynglŷn â'r llinellau gwyn yng nghyffordd Henfaes, Aberdaron,  mae'r rhain eisoes wedi'i hadnabod a chawn sylw pan mae adnoddau ar gael.
Penderfynwyd i'r clerc gysylltu gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i holi ynghylch sefyllfa y llinellau gwyn.
Adroddwyd hefyd nad ydi y gwaith o baentio arwyddion 'Araf' ar y ffyrdd wedi ei gwblhau, addawodd y Cyng Gareth Williams gysylltu gyda yr Adran Briffyrdd i holi.
**ii)Wal ger Moelfre, Aberdaron:** Bydd y Cyngor yn hysbysu perchennog y wal eto ynglŷn â'i gyfrifoldeb o gynnal y wal yma.
**iii) Arwydd Araf/Slow, Bodferin:** Mae'r mater yma wedi cael ei anfon ymlaen i'r Gwasanaeth Trafnidiaeth. Penderfynwyd gofyn i swyddog o'r adran fynychu cyfarfod o'r Cyngor i drafod.
iv)**Barbio ger Cyffordd Llidiardau:** Mae'r gwaith o farbio ger cyffordd Llidiardau i wella gwelediad bellach wedi'i gwblhau gan berchennog y tir, ac mae perchennog y tir rhwng Tŷ'n Rhos ac eglwys Bodferin eisoes wedi derbyn llythyr yn gofyn iddynt farbio'r gordyfiant o'i eiddo nhw sydd yn amharu ar drafnidiaeth. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd farbio y rhan fechan o adwy Ty'n Rhos.
**v)Barbio ochr Y Rhiw i Bont Seithbont:** Mae'r gwaith tymhorol torri ymylon y ffordd bellach wedi cael ei gwblhau gan gontractwr y Cyngor, a tydi'r tyfiant o derfyn y cae fel arall ddim yn amharu ar symudiad traffig. Nid yw felly'n ymarferol i orfodi'r tirfeddiannwr farbio ymyl y ffordd ymhellach.
**ii)Materion yr Eglwys Newydd:** adroddwyd fod cynnig grant o £11,963 wedi ei dderbyn o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a £4,287 gan yr Architectural Heritage Fund. Mae'r grantiau yma yn cynnwys ffioedd proffesiynnol o £4,950 gan gwmni penseiri Donald Insall a £3,800 o waith ymgynghori (Cwmni Celyn. Mae gweddill yr arian sydd wedi ei gynnig i'w wario ar waith adnewyddu brys ar yr eglwys.
Penderfynwyd derbyn y cynigion yma.
Adroddwyd fod cyfarfod buddiol wedi ei gynnal gyda Adam Hitchings o Gronfa'r AHF ar safle'r eglwys yn ddiweddar.
Trafodwyd y gwaith adnewyddu brys a chadarnhawyd mai dim ond dau bris sydd wedi eu derbyn ac maent wedi eu hanfon ymlaen i'r cwmni yswyriant, ond nid oes ymateb wedi ei dderbyn gan y cwmni etoo. Nodwyd fod y ddau bris sydd oddeutu

£7,000 i'w weld braidd yn isel ac mae pryder nad ydi y ddau gwmni sydd wedi prisio yn awyddus i gwblhau y gwaith.
Trafodwyd gofyn am brisiau gan gwmni araill (awgrymwyd Derwen Llŷn, Williams a Roberts, a QW Construction) ond teimlwyd fod angen 'schedule of works' gan bensaer er mwyn iddynt wybod yn iawn beth ydi'r gwaith sydd yn ofynnol ac er mwyn derbyn prisiau realistig.
Penderfynwyd gofyn i Matt Osmont o gwmni Donald Insall ddiweddaru yr arolwg o'r adeilad cyn gynted a phosibl, hefyd gofyn i Caryl Lewis o Gwmni Celyn ddechrau ar y gwaith ymgynghori hefyd.
Trafodwyd y posibilrwydd o ddiogelu y to rhag i fwy o lechi ddisgyn i'r fynwent gan greu risg i'r cyhoedd a phenderfynwyd gofyn i Adam Hitchings o'r AHF am fwy o fanylion ynghylch dull o roi rhwyd dros y to er mwyn ei wneud yn ddiogel.
Cytunodd y Cyng Wil Evans ac RJ Williams wneud arolwg iechyd a diogelwch o'r fynwent.
iii)Yr afon ym mhentref Aberdaron: Nid oes ymateb wedi ei dderbyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru.
iv)Hyfforddiant i Gynghorwyr: Mae y clerc wedi gofyn i Gyngor Botwnnog os y byddant yn dymuno ymuno â Chyngor Aberdaron er mwyn cynnal cwrs côd ymddygiad, mae ar raglen eu cyfarfod nesaf.
v)Safleoedd Deunant a Llidiardau: Derbyniwyd ymateb gan Carys Fôn Williams, Pennaeth Adran Eiddo Cyngor Gwynedd fel a ganlyn:
**Hen Ysgol Llidiardau** – mae gan yr Adran Tai ac Eiddo fwriad i fod yn datblygu tai ar safle 'r hen ysgol, ac mae arolwg gan Hwylusydd Tai Gwledig ar y gweill ar hyn o bryd am hyd at 4 tŷ, er mwyn sefydlu'r angen lleol. Yn ogystal a hyn, mae arolygon eraill megis Arolwg Ystlumod ar y gweill. Mi fyddem yn disgwyl canlyniadau'r arolygon hyn cyn bwrw ymlaen.
Cara Owen sy'n Rheolir Cynllun yma, ac mae croeso i'r Cyngor ysylltu gyda hi am ddiweddariad pellach yn y man.
**Ty'r Ysgol Deunant –** Bwriad yr Adran yw adnewyddu'r ty ar gyfer defnydd lleol drwy ddefnyddio dulliau arloesol fydd yn creu anedd fydd yn amgylcheddol gyfeillgar. Mae Swyddogion yr Adran wedi ymweld a'r eiddo ac wedi ymgymryd arolwg mesuriedig yn ogystal a darparu adroddiad ar gylfwr cyfredol yr adeilad a'r safle o'i amgylch. Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn gweithio'n gyda Syrfewr arbenigol sydd yn ein cynghori ar systemau arloesol ar gyfer yr anedd, megis defnydd o galch ac defnyddiau arloesol eraill. Rydym yn gweld cyfle yma i fod yn defnyddio ffyrdd gwahanol o insiwleddio, lloriau a plastro/rendro yn ogystal a defnydd o PV's ar gyfer cynhyrchu trydan ac yn y blaen. Mae'r deunyddiau yma wedi cael ei defnyddio gan Gyngor mewn cynllun adnewyddu yn De Cymru, ond nid yw wedi ei ddefnyddio mewn ardal agored ac arfordirol fel Aberdaron, felly gwelir y datblygiad yma fel cynllun peilot ar gyfer gweddill y Sir.
Y bwriad nawr yw symud ymlaen i broses dendr agored i gwmniau lleol ar fframwaith y Cyngor i ymgymeryd ar gwaith.
Gareth Owen sy'n rheoli'r cynllun yma, ac mae croeso i'r Cyngor gysylltu gyda fo am unrhyw ddiweddariadau pellach.
Dymuna y Cyngor Cymuned wybod os mai gosod ynta gwerthu Tŷ'r Ysgol Deunant ydi y bwriad.

**vi)Cyfansoddiad Canolfan Crud y Werin:** Mae copi o'r cyfansoddiad wedi ei gylchredeg ac mae'r Cyngor yn fodlon gyda chynnwys y cyfansoddiad yn ogystal â'r gynrhychiolaeth. Mynegodd y Cyng Wenda Williams ddiddordeb yn y mater yma a gadawodd yr ystafell yn ystod y drafodaeth. Cymerodd y Cyng Wil Evans y gadair.

**5) Gohebiaethau**

i)Digwyddiad Ardal Ni Dalgylch Llŷn: Mae y digwyddiad i'w gynnal ar y 17eg o Hydref yn Neuadd Abersoch ac mae'r Cynghorwyr Wenda Williams a Wil evans am fynychu.

ii)Cynllun Peilot ardal Dwyfor: Mae Catrin Huws, Uwch Swyddog Galluogi Tai Gwledig yn awyddus i fynychu cyfarfod o'r Cyngor a phenderfynwyd gofyn iddi fynychu y cyfarfod nesaf.

iii)Derbyniwyd llythyr gan Sion Bryn Roberts yn holi os fyddai y Cyngor Cymuned yn fodlon ariannu sesiynnau clwb ieuenctid yng Nghanolfan Deunant, mae cynnig i'r Cyngor ariannu 10 sesiwn allan o gyfanswmo 30, byddai Cyngor Gwynedd a Chanolfan Deunant yn rhannu côst y 20 sesiwn arall. Mae'r Cyngor y gefnogol i'r syniad mewn egwyddor, a penderfynwyd gofynbeth fyddai côst 10 sesiwn. Datganodd y Cyng Wenda Williams ddiddordeb yn yr eitem yma a gadawodd yr ystafell, cymerodd y Cyng Wil Evans y gadair.

**6) Cynllunio**

C22/0723/30/CR: Amnewid rhan o'r to gyda llechi o faint gwahanol, Carreg Plas, Aberdaron (cais a dderbyniwyd yn ystod yr haf - cefnogi)

C22/0645/30/LL: Cais ar gyfer darparu storfa slyri o dan y ddaear Hendre Uchaf, Aberdaron (cais a dderbyniwyd yn ystod yr haf - cefnogi)

C22/0687/30/CA: Dymchwel sied, Y Sied Ddu, Ger Melin Daron, Aberdaron: adroddwyd fod y gwaith eisioes wedi ei wneud.

C22/0765/30/DT: Estyniadau unllawr bwriedig, Tŷ Tan Y Fron, Anelog: Mae'r Cyngor wedi ymateb i gais blaenorol ac yn siomedig iawn fod siediau hanesyddol wedi eu dymchwel. Mae'r Cyngor hefyd yn bryderus am gwrs y llwybr cyhoeddus a phenderfynwyd gofyn am ddiweddariad gan yr adran Llwybrau.

C22/0855/30/DT: Ailwampio ac estyniadau bwriedig i dy bresennol ynghyd a gwella mynedfa gerbydol, rhodfa a man parcio, Bron Foel, Uwchmynydd - dim gwrthwynebiad.

**7)Ariannol**

**Taliadau**

**Adroddiad ariannol:** Derbyniwyd adroddiad ariannol gan y clerc a chadarnhawyd fod y gwariant hyd yma o fewn y gyllideb a benwyd am y flwyddyn.

Awdurdodwyd talu y canlynol:
Iwan Hughes: £195.33 (Cyflog Awst)
Iwan Hughes: £195.53 (cyflog Medi)
HMRC (Paye): £49 (Awst)
HMRC (Paye): £48.80 (Medi)
Nesta Roberts: £12.56 (CCTV trwy S/O)
Nesta Roberts: £12.56 (CCTV trwy S/O)
Cyngor Gwynedd: £216 (archwiliad mewnol)
HSBC: £10 (ffioedd 2 fis)
William John Jones: £1,123.80 gan gynnwys TAW (gwaith yn y fynwent, datganodd y Cyng Gwenllian Hughes Jones a Dafydd Williams ddiddordeb yn yr eitem yma a gadawsant yr ystafell)

William John Jones: £510 gan gynnwys TAW (torri gwellt y fynwent yn ystod tymor 2022 ac un toriad cyn agor am y tro cyntaf yn 2021. Dangosodd y Cyng Gwenllian Hughes Jones ddiddordeb yn yr eitem yma a gadawodd yr ystafell)

**Derbyniadau**

Cyngor Gwynedd: £7,500 (praesept)

Scottish Power: £45.66 (wayleave)

**8)Apeliadau am gymorth ariannol:**

i)Cwch i'r anabl: Dim mantolen wedi ei dderbyn felly ni chafodd y cais ei drafod.l

ii)Cyfraniadau tuag at dorri mynwentydd yr ardal: Penderfynwyd cyfranu £200 tuag at dorri gwellt y 5 mynwent.

**9) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**

i)Lôn Mynydd Ystum: Mae'r ffordd yn parhau i fod mewn cyflwr sâl: Penderfynwyd gofyn i'r Adran Priffyrdd am ddiweddariad.

ii)Mae cerbyd wedi taro y clawdd ger y cyn dŷ'r heddlu, penderfynwyd hysbysu Cyngor Gwynedd.

iii)Mae'r broblem gor yrru ar y B4413 heibio Hendre Bach/Cwt Chwarel yn parhau, yn ogystal ag yn Rhoshirwaun. Penderfynwyd holi y Cyngor ynghylch y sefyllfa yn ogystal â'r palmant bwriadedig rhwng yr ysgol a Bro Hywyn.

iv)Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor dynnu yr arwydd goleuedig ger yr ysgol sydd ddim yn cael defnydd erbyn hyn.

v)Penderfynwyd gofyn am i'r llinellau melyn i wahardd parcio gael eu hymestyn heibio Dwynant a Llewyrch Enlli.

vi)Mae pryder am sefyllfa maes parcio spar yn y pentref, yn enwedig y 'right of way' trwy y maes parcio. Trafodwyd holi adran eiddo y Cyngor.

vii)Mae pryder ynghylch sefyllfa lawnsio cychod ym mhendraw maes parcio Henfaes ynghyd a'r ffaith na chafodd y bwiau eu gosod eleni. Eglurodd y Cynghorydd Sir fod y swyddog Morwrol yn awyddus i gael cyfarfod ddechrau y flwyddyn er mwyn trafod trefniadau flwyddyn nesaf. Pwysleiswyd ei bod yn bwysig fod y Cyngor Cymuned yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau.

viii)Penderfynwyd rhoi llwybrau cyhoeddus yn eitem ar raglen y cyfarfod nesaf.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf o'r Cyngor nos Lun, Hydref y 10fed yn Neuadd Rhoshirwaun**